

TCA

DYDD LLUN 13.03.17

PAPUR ARHOLIAD CHWEFROR 2017

- **TASG I: CYWIRO** Taflen Ateb
-
- **4 gwall** i'w cywiro gyda chymorth Cysill (melyn) - $\frac{1}{2}$ marc yr un
- **18 gwall** i'w cywiro heb gymorth Cysill (gwyrdd) – 1 marc yr un
-
- Cyfanswm o **20 marc**
- (Darn i rifyn mis Mawrth y papur bro lleol)
-
-
- Marciwch eich papur eich hun!

PAPUR ARHOLIAD TCA

Llwyddiant i Ysgol y Bryn yn yr Eisteddfod Sir

Bu Ysgol y Bryn yn llwyddiannus eleni eto yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Enillodd yr ysgol nifer o gystadlaethau, gan gynnwys cystadleuaeth y gân actol. Cafodd y sioe hon ei hysgrifennu gan Mr Roger Morgan, athro pwysy'n addysgu cerddoriaeth yn yr ysgol. Mae'r stori wedi'i seilio ar hanes Bwbach y Bannau ac mae'r sioe'n cynnig digon o gyfle i'r disgyblion ddangos eu doniau cerddorol.

Mae llwyddiant y disgyblion yn destun balchder i bawb yn yr ysgol, wrth gwrs. O ganlyniad i'w llwyddiant, bydd y disgyblion yn teithio i Sir y Fflint ddiwedd mis Mai i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Fel ysgol, byddwn yn cynnal cyngerdd i'r gymuned leol ym mis Ebrill er mwyn codi arian i dalu am y bws. Hefyd, bydd y cyngerdd yn brofiad gwych i'r disgyblion gael perfformio i gynulleidfa.

PAPUR ARHOLIAD TCA

Bydd hysbyseb yn y papur bro **pan fydd** tocynnau'r cyngerdd ar werth. Bydd y noson yn **boblogaidd** dros ben, felly dylai pawb sydd â diddordeb **gysylltu** â'r ysgol mewn da bryd. Edrychwn ymlaen yn fawr **at eich** croesawu i'r ysgol. |

PAPUR ARHOLIAD TCA TRAWSIEITHU

- **Bwlch rhywedd o ran darllen**
- **Prif bwyntiau:**
- Mae gan lai o ferched anawsterau wrth ddarllen na bechgyn.
- Gan fod pwyslais ar lythrennedd (yn y system addysg), gall bechgyn fod o dan anfantais wrth iddynt golli hyder a chymhelliant i ddysgu.
- Mae angen helpu bechgyn i ddatblygu agwedd fwy cadarnhaol at ddarllen, drwy ddarparu llyfrau sy'n apelio atynt, rhaglenni llythrennedd penodol a thrwy annog teuluoedd i ddarllen gyda'u meibion ac annog tadau i fod yn fodelau rôl cadarnhaol.
-

PAPUR ARHOLIAD TCA TRAWSIEITHU

- **Is-bwyntiau perthnasol:**
- Mae gan fechgyn lai o ddiddordeb mewn darllen ac maent yn darllen testunau llai cymhleth na merched.
- Maent yn llai tebygol o ddarllen er mwyn pleser.
- Mae rhaglen 'Guys Read' yn dangos bod bechgyn yn darllen os ydynt yn cael cynnig y llyfrau a'r storïau cywir.
- Mae rhai ysgolion wedi datblygu cynlluniau darllen i dadau a meibion.

YSGRIFENNU RHYDD

Mae pennaeth yr ysgol wedi gofyn ichi ysgrifennu **adroddiad byr am un disgybl** a oedd yn eich dosbarth yn ystod eich profiad dysgu diwethaf. Mae'n bosib y bydd yr ysgol yn defnyddio'r adroddiad, neu rannau ohono, yn yr adroddiad i rieni.

Fel pennawd, rhowch enw'r disgybl, a'r flwyddyn ysgol, e.e. **Adroddiad Rhodri Puw, Blwyddyn 2**

Dylech gynnwys y pwyntiau canlynol:


- Sylwadau am bresenoldeb, ymddygiad ac agwedd y disgybl a'r ffordd y mae'n rhyngweithio ag eraill
- Defnydd y disgybl o'r Gymraeg yn y dosbarth a gyda'i ffrindiau
- Ymateb y disgybl i'r gwaith a wnaethoch chi gyda'r dosbarth (a'r gweithgareddau allgyrsiol, os yw hynny'n berthnasol), gan gynnwys sylwadau am lythrennedd a rhifedd
- Sut gall y disgybl wneud cynnydd.

AWGRYMIADAU'R COLEG CYMRAEG

- Angen rhoi sylw i'r pwyntiau hyn:
- Cynnwys: Rhaid rhoi sylw digonol i'r pedwar pwynt uchod, er y dylid ystyried y gall oed y disgybl effeithio ar faint o sylw a roddir i ambell bwynt.
- Arddull: Darn sy'n addas i'r gynulleidfa, h.y. pennaeth yr ysgol ac o bosib rhieni'r disgybl. Felly rhaid iddo fod yn ffurfiol/lled ffurfiol, e.e. Nid oes/Does dim, yn hytrach na 'Sdim.


TRAWSIEITHIAD YR WYTHNOS HON

- GOLDBLOCKS IS A GURU – LET ME EXPLAIN WHY...
- I'W GYFLWYNO DDYDD LLUN NESAF



GWALLAU SY’N CODI O’R PAPUR ARHOLIAD

- Gall tadau ddangos pwysigrwydd darllen i’w plant gan dangos ei bod yn gallu bod yn hwyl.
- Mae’r cynllun yn darparu llyfrau ac awduron i fechgyn o bob oed y gellir ei defnyddio gan rieni.
- Mae Mari’n rhyngweithio’n effeithiol gyda’i chyfoedion, wrth rannu gydag eraill a’i pharchu.
- Mae Elin yn dangos balchder aeddfed yn ei waith.
- Mae Alys yn medru cofio gwybodaeth o lyfr a’i ddefnyddio i’w helpu.
- Mae’n bwysig bod Jac yn herio’i hun yn ystod ei gwaith.
- Mae angen ysgogi Martha i gwblhau ei waith gan ei fod yn yn cael hi’n anodd.



ÔL-GYFEIRIO

- Mae'r cynllun yn darparu llyfrau ac awduron i fechgyn o bob oed y gellir ei defnyddio gan rieni.
- Mae Mari'n rhyngweithio'n effeithiol gyda'i chyfoedion, wrth rannu gydag eraill a'i pharchu.
- Mae'n bwysig bod Jac yn herio'i hun yn ystod ei gwaith.

BETH YW'R BROBLEM?

- Rhoddodd Ffion o'i gorau bob amser ac maent yn hapus i gyfrannu yn y dosbarth.
- Mae Tomos yn ddisgybl gweithgar a deallus ac maent bob amser yn siriol.

BERFAU

Y terfyniad fydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni hefyd.

Mae nifer o amseroedd gwahanol i'r ferf, yn cynnwys ...

Yr amherffaith rhywbeth oedd
yn arfer digwydd yn aml yn y gorffennol
ond bellach mae e wedi gorffen.

Y gorffennol

rhywbeth sydd wedi digwydd
unwaith yn y gorffennol, mae'r
weithred ar ben.

Y presennol

rhywbeth sy'n digwydd nawr, naill ai
fel gweithred unigol neu rywbeth sy'n
arfer digwydd ac yn dal i ddigwydd.

Y dyfodol

rhywbeth fydd yn
digwydd yn y dyfodol h.y
heb ddigwydd eto.

Y terfyniad fydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni ...

Mae chwe 'pherson' gwahanol i'r ferf ...

person 1af unigol

FI

2il berson unigol

TI

3ydd person unigol

EF / HI / JOHN

person 1af lluosog

NI

2il berson lluosog

CHI

3ydd person lluosog

NHW

BETH YW BERF GRYNO?

BERF GRYNO yw'r ffordd fyrrach o ddweud rhywbeth. Ystyriwch y ddwy frawddeg ganlynol:

Mae Siôn wedi darllen llyfr.

Mae ystyr rhain yn union yr un fath. **Cwmpasog** yw'r cyntaf. **Cryno** yw'r ail.

Darllenodd Siôn lyfr.

YMARFER.

YDYCH CHI'N GWYBOD PA DERFYNIADAU SY'N CYFATEB I BA AMSER?

Llinell Amser Berfau ...

Y Gorffennol

Y Presennol

Y Dyfodol



Cofiwch: Dyma'r terfyniadau ar gyfer y berfau rheolaidd – fydd pob berf ddim yn dilyn y patrymau hyn.
Y berfenwau afreolaidd mwyaf adnabyddus ydy **mynd, dod, cael a gwneud**.

-ais i
-aist ti
-odd e
-odd hi
-on ni
-och chi
-on nhw

-a i / -af i
-i di
-iff e / -a ef
-iff hi / -a hi
-wn ni
-wch chi
-an nhw

-wn i
-et ti
-ai e/hi
-em ni
-ech chi
-en nhw

TERFYNIADAU'R PRESENNOL:

...af

...i

...a [...iff(gwr)/...ith(ben)]

...wn

...wch

...ant

...ir (amhersonol)

PRESENNOL

- ...af
- ...i
- ...a[....iff(g)/....ith(b)]
- ...wn
- ...wch
- ...ant
- gweithia*f i*
- gweith*i di*
- gweithia *ef/hi*
- gweithiwn *ni*
- gweithiwch *chi*
- gweithiant *nhw*

GWEITHGAREDD

Defnyddiwch y cardiau berfenw i ymarfer rhedeg y ferf.

Er enghraifft: **Prynu**

Prynaf i, pryni di, pryniff e, prynith hi, prynwn ni, prynwch chi, prynant hwy.

YMARFER ...

Cyfieithwch gan ddefnyddio'r ffurfiau cryno ...

- I'll wait
- I'll keep
- They'll walk
- She'll show
- You'll read (ti)
- You'll arrive
- Arhosaf i
- Cadwaf i
- Cerddan nhw
- Dangosiff hi
- Darlleni di
- Cyrhaeddwch chi

Y GORFFENNOL CRYNO:

Defnyddir yr amser hwn i ddangos rhywbeth sydd wedi ei wneud yn y gorffennol.

...ais i

...aist ti

...odd e/hi/Sion

...on ni

...och chi

...on nhw

GWEITHGAREDD

Defnyddiwch y cardiau berfenw i ymarfer rhedeg y ferf.

Er enghraifft: **Rhedeg**

Rhedais i, rhedaist ti, rhedodd e, rhedodd hi, rhedon ni, rhedoch chi, rhedon nhw.

PRESENNOL – GORFFENNOL – DYFODOL


Y Ferfenw	Presennol	Gorffennol	Dyfodol (cwmpasog)
chwarae	chwaraeaf	chwaraeais	bydda i yn chwarae
siarad	siaradaf	siaradais	bydda i yn siarad
darllen	darllenaf	darllenaais	bydda i yn darllen

YR AMHERFFAITH

Defnyddir yr amser hwn i ddangos rhywbeth oedd yn digwydd yn y gorffennol *dros gyfnod o amser*.

Nid gweithgaredd a ddigwyddodd unwaith a gorffen sydd yma ond rhywbeth ddigwyddodd fwy nac unwaith, ac nid oes sicrwydd pryd y daeth i ben.

Dyna pam y galwn y weithred yn amherffraith.



TERFYNIADAU'R BERFAU CRYNO RHEOLAIDD

Presennol/ Dyfodol	Gorffennol	Amherffaith
Pryn – AF I Pryn – I DI Pryn – A/IFF/ITH E/HI Pryn – WN NI Pryn – WCH CHI Pryn – AN NHW	Pryn – AIS I Pryn – AIST TI Pryn – ODD E/HI Pryn – OM NI Pryn – OCH CHI Pryn – ON NHW	Pryn – WN I Pryn – ET TI Pryn – AI E/HI Pryn – EM NI Pryn – ECH CHI Pryn – EN NHW
Pryn - IR	Pryn - WYD	Pryn - ID

Mae'n RHAIID dysgu'r terfyniadau yma

Peidiwch
â phoeni
am y
rhain
nawr –
dewn ni
nôl atyn
nhw ...

YR AMHERFFAITH:

...wn

...it

...ai

...em

...ech

...ent

FFURFIO'R NEGyddOL

Fel arfer, os ydy'r frawddeg yn negyddol, mae angen treiglo'r ferf.

Clywais i swên > **Chlywais i ddim** swên.

Os yw'r ferf yn cychwyn â'r llythrennau **C, P** neu **T** mae angen **treiglo'n llaes**. Os yw'r ferf yn cychwyn â'r llythrennau **B, D, G, Ll, Rh** neu **M** mae angen **treiglo'n feddal**.

e.e

Ches i ddim

Ddywedais i ddim

Welais i ddim

Feddyliais i ddim

FFURFIO'R NEGYDDOL

Neu, mae modd i chi ychwanegu “**ni**” ar ddechrau’r frawddeg ond bydd dal angen treiglo’r ferf.

Clywais i *swîn* > Ni chlywais i *swîn*

Os yw’r ferf yn cychwyn â’r llythrennau **C, P** neu **T** mae angen **treiglo’n llaes**.
Os yw’r ferf yn cychwyn â’r llythrennau **B, D, G, Ll, Rh** neu **M** mae angen **treiglo’n feddal**.

e.e

Ces i > Ni ches i

Dywedais i > Ni ddywedais

Gwelais i > Ni welais i

Meddyliais i > Ni feddyliais.

GÊM I ADOLYGU

Defnyddiwch y cardiau berfenw i ymarfer defnyddio'r berfau afreolaidd.

Taflwch ddis rhif ac yna dewiswch gerdyn.

1 = fi

2 = ti

3 = e / hi

4 = ni

5 = chi

6 = nhw

Gwyrdd = brawddeg gadarnhaol

Coch = brawddeg negyddol

Melyn = cwestiwn

Adolygu

Cadarnhaol	Cwestiwn	Negyddol
Darllenes i/Darllenaais i	Ddarllenes i?/Ddarllenaais i?/ A ddarllenaais i?	Ddarllenes/Ddarllenaais i ddim/ Ni ddarllenaais i
Darllenest ti /Darllenaist ti	Ddarllenest ti?/Ddarllenaist ti?/ A ddarllenaist ti?	Ddarllenest/Ddarllenaist ti ddim/ Ni ddarllenaist ti
Darllenodd e/o/ Darllenodd ef	Ddarllenodd e/o?/ A ddarllenodd ef?	Ddarllenodd e/o ddim/ Ni ddarllenodd ef
Darllenodd hi	Ddarllenodd hi?/ A ddarllenodd hi?	Ddarllenodd hi ddim/ Ni ddarllenodd hi
Darllenon ni / Darllenasom ni	Ddarllenon ni?/ A ddarllenasom ni?	Ddarllenon ni ddim/ Ni ddarllenasom ni
Darllenoich chi/ Darllenasoch chi	Ddarllenoich chi?/ A ddarllenasoch chi?	Ddarllenoich chi ddim/ Ni ddarllenasoch chi
Darllenon nhw / Darllenasant hwy	Ddarllenon nhw?/ A ddarllenasant hwy?	Ddarllenon nhw ddim/ Ni ddarllenasant hwy

TROWCH Y CANLYNOL I'R NEGYDDOL ...

-
- Gwela i di 'fory.
 - Cymerwn ni'r tocynnau.
 - Pryniff hi'r gwerslyfr.
 - Canwn ni heno.
 - Bwyti di swper.
 - Rhoddwn ni arian i'r gronfa
 - Dangosiff e i chi.